

# Y Ffordd Gymreig:

Tuag at Arweinyddiaeth Byd-eang wrth Gynhyrchu Cig Oen a Chig Eidion Cynaliadwy

## Cymru yn enghraifft fyd-eang...

Yng Nghymru, mae cig oen a chig eidion yn cael ei fagu gan fwyaf drwy ffermio nad yw'n ddwys ac sy'n dibynnu ar borfa helaeth a glaw yn hytrach na bwyd sy'n cael ei fewnforio. Mae hyn yn gwneud Cymru'n un o'r mannau mwyaf cynaliadwy ar y Ddaear i gynhyrchu cig coch.

- Diolch i ddulliau cynaliadwy, mae ffermio gwartheg a defaid yng Nghymru yn allyrru llai o nwyon tŷ gwydr nag mewn rhannau eraill o'r byd.
- Mae'n defnyddio technegau ffermio nad ydynt yn ddwys, porfa a dŵr glaw i fagu anifeiliaid mewn systemau sy'n seiliedig ar dir pori ac sy'n rhoi llawer llai o bwysau ar adnoddau naturiol.
- Mae'r pridd yn cynrychioli storfa hynod bwysig o garbon. Gan fod y rhan helaeth o dir Cymru yn cael ei reoli ar gyfer amaethyddiaeth, mae'n rhoi'r sector mewn sefyllfa bwysig iawn: gall y pridd fod yn sinc nodedig o garbon, yn ddibynnol ar y ffordd mae'n cael ei reoli.
- Mae ffermio yng Nghymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol yn barod. Er enghraifft, gwelwyd cynnydd yn y nifer o ffermydd yng Nghymru sy'n cynhyrchu egni adnewyddadwy.

## ...ac mae mwy y gallwn ei wneud

- Optimeiddio iechyd a lles anifeiliaid yw un o'r ffyrdd symlaf a mwyaf effeithiol i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl a'r allbynnau mwyaf posibl o ddiadelloedd a buchesi Cymru, tra gall maeth cywir wedi'i dargedu sicrhau bod llai o wastraff a llai o allyriadau sy'n gysylltiedig â hynny.
- Gall magu effeithiol hefyd greu buddion amgylcheddol, gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy wella cyfraddau tyfu ac effeithlonrwydd troi porthiant.
- Pan gyfunir nifer o fesuriadau ar y fferm, mae potensial i ffermydd Cymru sicrhau gostyngiad o 20.4% mewn allyriadau ar gyfer y sector ddefaid, a 11.6% yn y sector gwartheg eidion. Byddai hyn yn gweld amaethyddiaeth Cymru yn sicrhau gostyngiad o tua 7.5%, tra byddai'r cyfanswm o gynhyrchiant cig oen a chig eidion yn parhau'n gyson.

Mae cig coch sy'n cael ei ffermio yng Nghymru eisoes yn llawer mwy cynaliadwy na'r cyfartaledd byd-eang



Y nifer o ffermydd yng Nghymru sy'n cynhyrchu egni adnewyddadwy wedi cynyddu i 18%

81%

81% o dir amaethu Cymru yn laswelltir parhaol, sydd ddim yn addas ar gyfer cynhyrchu mathau eraill o fwyd



## Dau beth nad ydych yn ei wybod am ffermio Cymru

### 1. Mae ffermydd Cymru yn creu ac yn amddiffyn cynefinoedd, gan sicrhau bioamrywiaeth a hybu iechyd y pridd

- Mae da byw sy'n pori yng Nghymru wedi bod o gymorth i greu cynefinoedd bywyd gwyllt ac mae parhad o'r ymarferion pori hyn yn hanfodol am eu rheolaeth barhaus.
- Mae angen amrywio strwythur a chyfansoddiad y llystyfiant er mwyn i ecosystemau gwblhau eu cylch bywyd yn llwyddiannus – mae ffermio yn darparu hyn.
- Mae ymchwil wedi dangos bod pridd glaswelltiroedd yn y DU â chymhareb garbon pridd organig i glai tebyg i dir coedwigaeth sydd â phridd iach.

Tail anifeiliaid a glaswelltir yw'r dull gorau o ddychwelyd carbon, a thrwy hynny iechyd, i'r pridd.

*Ymchwil Rothamsted*



Mae glaswelltir y DU yn atafaelu tua 240kg o garbon yr hectar y flwyddyn. Yng Nghymru, golyga hyn bod mwy na 265 miliwn kg o garbon yn cael ei dynnu o'r atmosffer bob blwyddyn, diolch i ffermio Cymru.

*Yn seiliedig ar  
1.326m hectar –  
fffigwr Llywodraeth Cymru*



### 2. Mae ffermydd Cymru eisoes yn chwarae rhan enfawr mewn dal carbon

- Gall amaethyddiaeth a rheolaeth tir wrthbwysu carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) yn yr atmosffer drwy atafaeliad, yn tynnu CO<sub>2</sub> o'r atmosffer a'i storio yn y pridd, mewn tirweddau coedwigol a chynefinoedd lled-naturiol, yn bennaf drwy ffotosynthesis.
- Ar gyfer glaswelltiroedd a allai fod wedi cyrraedd ecwilibriwm, bydd rheolaeth pori yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal y stociau carbon hyn fel y brif storfa garbon ddaearol.
- Mae'n bosib bod rhai ffermydd yng Nghymru yn garbon niwtral yn barod drwy weithgareddau fel cynhyrchu egni adnewyddadwy ac atafaeliad carbon.
- Gall newid glaswellt parhaol yn goedwig gael effaith negyddol yn y tymor byr, drwy ryddhau tua 2.25 tonnell o gyferth o CO<sub>2</sub> yr hectar y flwyddyn o'r pridd. Yn hytrach na hyn, dylwn ni fod yn cynyddu'r gorchudd coetiroedd yn strategol drwy ei integreiddio o fewn systemau presennol ffermydd.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

- Gall gwsmeriaid y DU barhau i fwyta cig coch: mae ein defnydd cyfartalog yn gymharol i'r hyn a gynghorir gan y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (70g o gig coch y dydd).
- Mae cig coch yn cynnig maethion allweddol yn rhan o ddeiet gytbwys, gan gynnwys fitaminau A a B2, calsiwm, iodid, haearn, magnesiwm, potasiwm a sinc. Dangosa ffigyrau'r DU nad yw merched ifanc yn benodol yn bwyta digon o'r rhain.
- Ni ddylem ni 'all-forio' ein allyriadau: mae cefnogi cynhyrchiant da byw yng Nghymru a Phrydain yn osgoi galw cwsmeriaid am cig coch sy'n cael ei fewnforio, fyddai'n cynyddu'r allyriadau byd-eang drwy gyrchu cig coch o wledydd eraill gydag ymarferion ffermio llai cynaliadwy.
- Mae prynu Cig Eidion Cymru a Chig Oen Cymru yn golygu cefnogi ffermio defaid a gwartheg eidion cynaliadwy sy'n arwain y byd.

Mae prynu Cig Eidion a Chig Oen Cymru yn golygu cefnogi dros 223,100 o swyddi a'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru – y gadwyn gyflenwi bwyd a diod – gwerth dros £6 biliwn i economi Cymru.



Mae'r argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu yn fater brys o ran ei natur ac yn fyd-eang – does dim amheuaeth fod rhai systemau ffermio dwys yn rhan o'r broblem. **Nid rhoi'r gorau i fwyta cig coch yw'r ateb, ond dewis cig sydd wedi'i gynhyrchu'n fwy cynaliadwy.**